COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 137

Amseru: Arferol

Teitl: Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Gwirfoddolwyr

Crynodeb Gweithredol:

Mae'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn chwilio am chwe heddlu i gymryd rhan yn y Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol i adolygu cofnodion dalfa'r rhai a nodwyd eu bod yn agored i niwed er mwyn cael gwell mewnwelediad i'r holl ofal a estynnir i garcharorion sy'n agored i niwed, gan ystyried eu taith lawn drwy'r ddalfa. Bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn adolygu detholiad o gofnodion dalfa wedi'u golygu mewn parau bob wythnos ac yn ateb set o gwestiynau penodol er mwyn adeiladu gwell dealltwriaeth o'r amddiffyniadau yn y ddalfa a helpu i nodi unrhyw faterion lleol. Bydd y cynllun peilot yn rhedeg ochr yn ochr â'r cynllun ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ac yn cychwyn ar 1 Medi 2019.

Argymhelliad:
Bod Dyfed-Powys yn cymryd rhan yn y Cynllun Peilot Arsylwyr Dalfeydd Annibynnol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 12/05/2019**